

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 3 Rhif 3

Yn rhad ac am ddim

Mehefin 2022



Pont Cenarth

Y tro diwethaf yn ardal Ystrad Fflur roeddwn i'n hwyr i gyrraedd ac wrth gwrs heddiw roeddwn i'n rhy gynnar. Digon o amser felly i fynd i Genarth i drïo tynnu lluniau cyn i'r lle lenwi. Yn anffodus roedd pobl dros y lle i gyd ond ar ôl i mi ofyn iddyn nhw i gyd symud eu ceir a sefyll allan o'r ffordd ces i'r llun yma. A dydy hi ddim yn Ebrill y cyntaf felly mae'n gwbl wir - does dim rhaid i mi ddweud celwydd. Nag oes? Wel dach chi'n adnabod fi erbyn hyn, wrth gwrs mod i'n dweud celwydd, neu dynnu'ch coesau beth bynnag. Dyma lun nes i dynnu ychydig o flynyddoedd yn ôl ac yn gynnar yn y bore. Am 7.36 ar fore'r 28ain o Fedi 2009 i fod yn hollol gywir. Roedd hi'n ddydd Mawrth a chithau'n dechrau meddwl am godi o'ch gwelyau.

Rhag eich cywilydd!

Yn ôl at y man cyfarfod yng Nghastell Newydd Emlyn i gyfarfod yr 'amheus arferol' wedyn ac roedd 26 ohonom ni, Alun Voyle oedd yn ein tywys. Pawb yn barod?



Ffwrdd â ni. Roeddwn i'n dilyn llwybr i'r De o'r ffordd fawr a blodau'r Gwanwyn ym mhob man.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



A dyma ni llysiau'r wennol ar y ddwy ochr a finnau eisio cael llun o'r criw lliwgar yn cerdded ymlaen ar y llwybr melyn. Ond doedden nhw ddim eisiau aros i mi gael y camera'n barod, ond, os dach chi'n edrych yn fanwl dyna nhw yn y pellter!

Roedd rhaid croesi'r ffordd brysur wrth i ni gyrraedd Fferm Gillo ond, diolch byth roedd gyrwyr cyfrifol a charedig yn hapus i aros i ni i gyd groesi'r ffordd yn ddiogel. Chwarae teg iddyn nhw! Roedd y llwybr yn gorffen tu ôl i eglwys Cenarth ac roedd hi'n amser am ein picnic. Lle gwell nag ar y creigiau wrth ochr yr afon.

Un o'r pethau dw i erioed wedi gwneud yw cerdded i fyni'r Teifi, wrth ochr y Teifi dylwn i ddweud, dydw i ddim wedi perffeithio cerdded ar ddŵr eto. Mi ddaw! Ond mae llwybr estyllod erbyn hyn felly does dim peryg o syrthio i'r afon. A dyna le oeddem ni yn cerdded yn hamddenol ac yn dweud "Diolch yn fawr" i'r rhai oedd yn sefyll i'r ochr i adael i ni fynd heibio. Pleser oedd clywed gymaint o bobl yn ateb yn Gymraeg.

Cerdded trwy'r caeau wedyn ac anelu at bentref bach Adpar - efallai bod yr enw yn od ond mae'r pentref yn enwog am y ffaith dyma le oedd y gwasg argraffu cyntaf yng Nghymru. Y gwasg argraffu gyfreithiol gyntaf dylwn i ddweud. Mi oedd gwasg argraffu anghyfreithiol ym Mhen y Gogarth ger Llandudno, un danddaearol. Catholigion oedden nhw ac yn argraffu pamffledi, roedd rhaid iddyn nhw fod yn ofalus dros ben. Mae'r hen stori yn dweud bod nhw wedi cael 'tip off' bod yr awdurdodau yn mynd ar eu holau nhw ac, yn ffodus iawn roedd twnnel cyfrinachol yn galluogi nhw i ddianc.

Dach chi wedi synnu faint o dwneli oedd yn yr hen ddyddiau ond does neb yn gwybod ble ydyn nhw erbyn hyn. Roedd llawer o smyglo'n mynd ymlaen ar Benrhyn Gŵyr yn yr hen ddyddiau ac roedd llawer o dwneli, yn ôl y sôn. Fel mae'r Gwyddelod yn dweud "Never let the facts get in the way of a good story!"

Ond pam oedd gwasgau argraffu tu allan i Lundain yn anghyfreithlon? Am y rheswm syml bod hi'n anodd iawn i reoli gwledydd os mae'r taeogion yn cael mynegi eu barn.



Mae Adpar ar gyrion Castell Newydd Emlyn ac yn fuan iawn roedd pump ar hugain o aelodau Cymdeithas Edward Llwyd yn stormio'r castell lleol ond peidiwch â beio ni am y difrod, yr hen Oliver Cromwell wnaeth hynny.

A dyma ni, ar ddiwedd y daith wedi cael diwrnod pleserus unwaith eto, Diwrnod o fod efo'n ffrindiau ac yn siarad iaith y Nefoedd.

Mae croeso i chi ddod efo ni unrhyw amser!

Llwybr Arfordir?

gan Anne Lloyd

Roedd y tywydd yn braf dros y Pasg am unwaith - amser da i fynd am dro ar hyd llwybr yr arfordir. Hoffwn i gwplu'r holl 870 o filltiroedd yn y dyfodol, ond mae tipyn bach i fynd – tua dim ond tri deg o filltiroedd dw i wedi cerdded hyd yn hyn! Galla i freuddwydio.

Ond ble nesa? Penderfynais fynd i Dalacharn gyda fy mab - bydden ni'n cerdded y pum milltir i Sanclêr. Roedd hi'n ddiwrnod heulog, a chawson ni bicnic o flaen y castell yn edrych ar draws y foryd cyn i ni gychwyn. Hyfryd, ond roedd rhaid i ni gychwyn. Aethon ni heibio'r cwt

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

cwch a thŷ Dylan Thomas, ac wedyn cyrhaeddodd ni'r llwybr trwy'r goedwig.



Ro'n i wedi gwisgo esgidiau cynfas gwyn cyfforddus ar gyfer gyrru, ac ar ôl tua hanner awr, sylweddolais ro'n i dal yn eu gwisgo nhw, yn hytrach na fy esgidiau lledr. "Dim ots, mae'r llwybr yn eitha' da", meddyliais. Cawn ni weld. Tipyn bach ymhellach, doedd yr arfordir ddim mewn golwg, ac ymhen dim, doedd dim llwybr chwaith! O leia' roedd yn sych dan draed. Wedyn cyrhaeddodd ni dipyn bach o goetir, lle'r oedd y tir yn y cysgod ddim yn sych o gwbl. Trïon ni ein gorau glas, ond roedd hi'n amhosib osgoi'r mwd. Troiodd darnau o fy esgidiau cynfas yn frown, ond gallai fe fod wedi bod yn waeth! Ar ôl heic trwy gaeau, gwelon ni rodfa bren wrth ochr y clawdd. Diolch byth.

Ond mewn gwirionedd doedd pethau ddim mor dda ag o'n i'n meddwl - roedd y mwd ym mhobman o'i gwmpas! Suddodd fy nhraed i mewn - ni ddihangodd fy esgidiau cynfas y tro 'ma. Do'n ni ddim yn hapus iawn i ddweud y lleiaf, ond ro'n ni wedi mynd rhy bell i droi 'nôl. Bant a ni te! Ac unwaith eto, gallen ni weld dŵr. Oedd e'n hud-ddwr efallai? Wedi'r cwbl, ro'n ni wedi bod yn cerdded yn y gwres ers sbel. Ond nid y môr oedd e, ond 'Parry's Pond'. Roedd crëyr ffug (wel, dw i'n meddwl fod e'n ffug) yn gwarchod y pwll, a gŵydd Canada unig yn crwydro o'i gwmpas. Welon ni mo'r môr ar y ffordd i Sanclêr, doedd dim golwg ohono fe!

"Sa i'n mynd 'nôl ar y llwybr, dw i'n mynd ar y ffordd" meddais wrth fy mab. A cherddodd ni 'nôl ar y ffordd, yn hollol ddi-fwd, diolch byth. Ac ein gwobr ar ôl gwplu pum milltir arall o'r 870 (er bod tipyn bach yn haerllug i alw rhai ohono fe 'llwybr yr arfordir") - hufen iâ haeddiannol yn Nhalacharn.

A fydd llwybr yr arfordir ar ein hantur nesaf, tybed? Cawn ni weld.

Troednodyn (yn llythrennol!). A beth am fy esgidiau cynfas? Dw i wedi'i golchi nhw tair gwaith - ac maen nhw dal yn frown!

Dw i'n ymddiheuro am y llwch sydd ar yr erthygl yma, am ryw reswm roedd o wedi mynd ar goll. Efallai achos roeddwn i wedi cael fy ypsetio gymaint am y 'sgidiau oedd ar un adeg yn wyn. Neu efallai achos dw i wedi dechrau mynd yn hen - o, gobeithio ddim!

Rob

Braidd yn Ffiaidd

gan Rob Evans

Dw i newydd gael torri fy ngwallt, dach chi wedi sylwi? Diwrnod braf iawn i gerdded i Ystumllwynarth a chael hoe fach wrth aros fy nhro. Roedd un yn y gadair ac un yn aros, a fi. Roeddem ni'n dau yn aros yn dawel, nid am nad oeddem eisiau siarad â'n gilydd ond achos roedd yr un yn y gadair yn siarad mor uchel. Tydi hi'n ddiddorol gwrando ar beth mae pobl eraill yn dweud, nid gwrando gymaint ond clywed!

"So, where are you going on your honeymoon? Oh, Miami and then a cruise on the Caribbean - lovely. Of course, I've been to Miami many times, we stayed in hotels ... no, I can't remember how much it cost, I don't really take much notice of things like that.

"Oh yes, I've been to Spain this year and Italy and Sweden and we'll be going off again next week, well eight of us really, we're picking up four cars in Nice. No girls though. Each car is costing us £2000"

"I'm flying from Heathrow, getting there on the train, going first class, naturally. I can get a seat to myself and there won't be any poor people with their kids screaming all the time."

"Yes, we shall have to drive from Monaco to Venice, that'll be about 6 hours. Of course when we are doing the race itself there will be a support car to take all our luggage. Just as well really, there's virtually no boot in a Ferrari!"

A dyma ni, fo a fi, yn aros yn amyneddgar tan i'r ferch orffen torri gwallt y dyn diddorol yma,


Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

tybed dylem ni aros tu allan rhag ofn iddo gael ei ypsedio gan bresenoldeb 'poor people' fel ni.

A beth yw ystyr y gair 'ffiaidd'? Loathsome, obnoxious. Ond dydw i ddim yn meddwl roedd o'n sylweddoli.

Ofergoelion

gan Jan Hill-Tout



Dw i ddim yn ofergoelus ond dw i'n credu bod ofergoelion yn cyfoethogi ein bywydau. Mae'n amlwg bod rhesymau gwreiddiol yr ofergoelion wedi hen ddiflannu ond mae'n debyg y byddan nhw'n parhau i fod yn ffordd bwysig o gadw cysylltiad â'n cyndeidiau i'r dyfodol. Dyma rhai enghreifftiau

Peidiwch â gosod sgidiau ar y bwrdd! Ond pam? Mae'n debyg taw halogiad oedd y prif reswm ond mae dau beth arall i'w ystyried hefyd. Y dyddiau hyn mae sgidiau yn gallu bod yn rhad ond mor ddiweddar â'r 19eg canrif roedden nhw'n ddrud iawn ac efallai dim ond un pâr oedd gyda phobl, yn enwedig pobl dlawd. Fel canlyniad os bydd pâr o sgidiau ar y bwrdd, arwydd bod rhywun wedi marw oedd e. Yn ôl y sôn pan laddwyd glowyr mewn damwain, gosodwyd eu sgidiau ar y bwrdd fel teyrnged.

Peidiwch ag agor ymbarél yn y tŷ! Ond pam? Wel, wrth gwrs gallech chi anafu rhywun neu dorri'r llestri, ond mae esboniad arall i'r ofergoel ar gael. Defnyddid ymbarelau gan yr Eifftiaid hynafol er mwyn cysgodi rhag yr haul. Dwedon nhw fod e'n amharchus i Dduw'r Haul i agor yr ymbarél tu fewn, a bysai anffawd yn eu dilyn nhw. Pwy ag ŵyr?

Carreg â thwll! Yn ôl ein cyndeidiau doedd hud dim yn gweithio mewn dŵr rhedegog, ac oherwydd deuir o hyd i gerrig â thwll mewn dŵr rhedegog, ro'n nhw'n dweud bod y cerrig hynny yn lwcus. Ro'n nhw'n credu bod pethau drwg

ddim yn gallu mynd trwy'r twll, felly lwc dda oedd hynny'n golygu. Adroddwyd bod chi'n gallu dod o hyd i gerrig â thwll yn adfeilion hen adeiladau fel stablau ble osodwyd i gadw anifeiliaid yn ddiogel.

Byddwch yn ofalus gyda'r drych 'na! Mae pobl yn dweud bod canlyniad o dorri drych yn lwc wael am saith mlynedd. Syniad y Rhufeiniaid hynafol oedd hyn yn wreiddiol, oherwydd iddyn nhw gredu bod ein bywyd ni'n adnewyddu pob saith mlynedd. Os eich adlewyrchiad oedd y peth olaf yn y drych roedd rhaid i chi aros saith mlynedd am fod yn ddiogel.

Nid arbenigwr ofergoelion ydw i, dim ond wedi gwneud tipyn bach o ymchwil ar y we. Efallai bod ofergoelion anarferol yn eich ardal neu eich teulu chi? Bysai fe'n ddiddorol iawn i glywed amdanyn nhw.

Llythyr o'r Almaen


Helo yna, Fay Abernethy dw i.

Dw i'n dod yn wreiddiol o Ddyfnaint, ond dw i wedi bod yn byw yn Ulm, yn ne'r Almaen am amser hir. Dw i'n byw efo fy nghwr a'n ddwy ferch. A hefyd efo Yoshi, bochdew diog iawn. Mae Ulm ar lan yr afon Danube ac mae hi'n ddinas neis iawn. Dyma fan geni Albert Einstein ac mae'n gartref i'r meindwr eglwys talaf yn y byd!

Dw i'n gweithio fel cyfieithwraig (o'r Almaeneg i Saesneg) ac, ers blwyddyn ddiwethaf, fel awdur ffuglen wyddonol hefyd.

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers y cyfnod clo cyntaf, yn 2020. I fod yn onest, do'n i ddim yn bwriadu dysgu Cymraeg – dw i wedi 'syrthio' mewn iddo e, achos cymeriad yn fy llyfr yn dod o Aberhonddu. Roeddwn i moyn gwybod, beth mae'n ddweud mewn gwirionedd wrth ei gariad.

Os ydych chi'n chwilfrydig hefyd, mae mwy o wybodaeth yma: fayabernethy.com



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalen y Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Alys Taylor

Alys dw i. Dw i'n byw yn Abertawe, ond ces i fy ngeni yn Hawaii. Symudais i Loegr pan briodais. Ar ôl ymddeol symudais i Abertawe. Roeddwn i eisiau dysgu Cymraeg cyn dod yma. Dw i'n dysgu Cymraeg gyda Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe.

Dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg, ond mae'n anodd. Dw i'n hoffi her. Ar y dechrau roedd synau Cymraeg yn anodd eu hailadrodd. Mae'n haws nawr nag ar y dechrau, ond dw i'n dal i gael trafferth gyda'r ynganiad. Dw i wedi gwneud ffrindiau da trwy ddysgu Cymraeg gyda'n gilydd ac mae'r athrawon yn dda ac yn amyneddgar iawn.

Dw i'n hoffi gweithio yn yr ardd. Dw i'n dwlu ar wyllo'r adar yn hedfan mewn a mas o'r clawdd a thorheulo yn yr ardd pan mae hi'n boeth. Dw i'n hoffi pobi bara brith. Dydw i ddim yn hoffi coginio pice ar y maen, ond dw i'n dwlu ar eu bwyta nhw. Wrth fy modd yn cerdded y llwybrau arfordirol o amgylch Penrhyn Gŵyr. Mae'n hardd iawn.

Dysgu Gyda'n Gilydd

gan Jacqui Pugh

Jacqui dw i. Dw i'n byw yng Nghwmbrân gyda Chris, fy ngŵr.

Dw i'n gweithio mewn caffi ym Mhont-y-pŵl. Dw i'n dod o Wattsville yn wreiddiol, pentre' bach ar bwys Crosskeys a Rhisga.

Does dim plant gyda fi. Mae cwningen 'da fi o'r enw Poppy. Mae Poppy yn ddeg a hanner oed ac mae hi'n byw yn y tŷ.

Does neb yn y teulu sy'n siarad Cymraeg, ond, pan o'n i'n blentyn, canodd mam-gu i fi yn Gymraeg. Doedd dim dosbarth Cymraeg yn yr ysgol.

Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers 2016. Roedd Chris eisiau dysgu Cymraeg felly, penderfynais i ddysgu Cymraeg hefyd.

Dw i'n mwynhau mynd am dro. Dw i'n lwcus iawn i fyw rhwng y gamlas a'r afon. Dw i'n gallu gweld sawl glas y dorlan yn yr ardal ac adar dŵr eraill. Dw i'n hoffi darllen hefyd. Ar hyn o bryd, dw i'n darllen 'Gêm Beryglus', un o'r llyfrau yn y gyfres Amdani.

Howard Jones Clements

Helo pawb. Howard dw i. Ro'n i'n gweithio fel athro mewn prifysgol. Dysgais i bobl sut i ddefnyddio cyfrifiaduron. Dw i wedi ymddeol nawr. Mae gwraig a mab a dau anifail anwes gyda fi, cath a chi. Dw i'n byw yng ngogledd orllewin Lloegr mewn tre fawr hanner ffordd rhwng Lerpwl a Manceinion. Dyfalwch enw'r dre 'ma.

Mae fy rhieni ac un chwaer wedi marw ond mae gyda fi ddwy chwaer sy'n byw yn Nhe Cymru. Mae un yn byw yn y Fenni a'r arall yng Nglynebwy, lle cawson ni i gyd ein magu.

Sally Magasich

Helo Sally dw i.

Rydw i'n bwy yn Aberystwyth. Mae pedwar o blant gyda fi, tri mab ac un ferch.

Rydw i'n gweithio hefo pobl anabl.

Rydw i'n hoffi darllen a gwneud pethau yn fy amser hamdden.

This page is very important to the Wennol. It gives people a starting point to read and also to write. Dont be afraid to write - it doesn't hurt a bit and I would love to help you on to the first rung of your writing career. Well you just never know! Why not have a go? Rob

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Beth nesaf?

Cyrsiau'n dod i ben yn yr haf?

Os felly dyma'r amser i sefydlu grŵp yn eich ardal er mwyn i chi a'ch cyd-ddysgwyr cadw eich Cymraeg i fynd. Mae mor syml i'w wneud, does dim ond rhaid i chi wneud yn siŵr bod cyfeiriadau pawb gennych chi, dewis rywle gyhoeddus i gyfarfod a dyna chi.

Mae'n bwysig bod chi'n cyfarfod ble mae pawb yn eich gweld chi achos, unwaith mae'r Cymry yn eich clywed chi bydden nhw eisio gwybod pwy ydach chi a phopeth amdanoch chi. Byddech chi wedi dechrau ar eich taith i fyd yr iaith. Ac mae'n fyd pleserus achos mae'r iaith angen pobl fel chi, pobl sydd wedi gwneud ymdrechion mawr i'w dysgu.

Byddech yn helpu ni i gadw'r iaith i fynd ac mae hynny'n bwysig dros ben achos mae pwysau mawr ar yr iaith. Ces i fy ngeni yn sir Fôn mewn pentref ble roedd y Gymraeg i'w glywed ym mhob man ond pan dw i'n mynd yn ôl dim ond Saesneg dw i'n clywed. Mae hynny'n drist ofnadwy.

Mae digon o ddysgwyr yn cofrestru i ddysgu pob blwyddyn i wneud môr o wahaniaeth ond er bod llawer yn cofrestru mae llawer yn methu torri mewn i'r byd Gymraeg. Bydd ffurfio grŵp yn cadw chi yn yr iaith.

Nid yn unig hynny mi fydddech chi yna i roi cefnogaeth i'r dysgwyr sydd yn eich dilyn chi, rhoi'r cyfle iddyn nhw siarad a chael hwyl yn yr iaith. Pob blwyddyn bydd eich grŵp yn tyfu a bydd mwy a mwy o ddysgwyr yn cyrraedd y gymuned Cymraeg.

Petasai hyn yn digwydd trwy Gymru gyfan pwy ag ŵyr faint o ddysgwyr bydd yn cael y cyfle i fwynhau siarad Cymraeg pob dydd.

Pan dach chi wedi sefydlu'r grŵp gadewch i mi wybod a byddaf yn ei restru yn Y Wennol.

What next?

Courses coming to an end in the summer?

If so this is the time to set up a group in your area so that you and your fellow learners keep your Welsh going. It is so easy to do, you only have to make sure that you have email addresses from everyone, choose somewhere public where you can meet, and there you are.

It's important that you meet where people can see you because, once Welsh people hear you they will want to know who you are and everything about you. You will then have begun your journey into the world of Welsh. And it is a very pleasurable world because the language needs people like you, people who have made such an effort to learn.

You will be helping us to keep the language alive and that is so important because of the pressures on the it. I was born in a village in Anglesey and Welsh was heard everywhere but when I go back now I only hear English. I find that very sad.

There are enough learners registering to learn every year to make a huge difference but so many find it difficult to break into the Welsh world. Forming a group would keep you in the language.

Not only that, you would be able to support those learners who follow you, to give them the chance to chat and have fun through the medium of Welsh. Each year your group will grow and more and more learners will reach the Welsh community.

If this happened all over Wales who knows how many learners would get the chance to speak Welsh every day.

When you've set up your group let me know and I can list it in the Wennol.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Marina Abertawe

Ar y 23ain o Ebrill roedd aelodau'r Gymdeithas yn cerdded yn ardal y dociau a'r marina yn Abertawe, i mi roedd hynny ddim ond taflad carreg o'r tŷ. Profiad od i ddweud y gwir achos mae bore dydd Sadwrn fel arfer yn fy ngweld i mewn tipyn o frys. Ond nid heddiw.

Roedd dros ugain ohonom ni ar ddiwrnod sych ond braidd yn wyntog - Eirian oedd yn arwain ac, er fy mod i wedi byw yn Abertawe am ddeunaw mlynedd, dysgais lawer.

Mae'n anodd iawn dychmygu'r holl longau yn y bae yn aros eu tro i ddadlwytho eu nwyddau o ochrau arall y byd neu i'w llwytho i fynd a'n nwyddau ni i wledydd pell i ffwrdd. Dychmygwch yr holl brysurdeb a'r holl dwrw.

Mae'r dociau a oedd ar un amser yn cyflogi gymaint o weithwyr wedi mynd a chychod hwylio sydd wedi cymryd eu lle, llawer ohonyn nhw. Yn y marina ei hun dim ond rhes fechan o gychod pysgota sydd yna a nhwythau'n edrych fel eu bod nhw wedi bod yn segur am rhy hir.

Lle tawel iawn yw'r dociau erbyn hyn ond, er hynny mae'n le braf i gerdded yn hamddenol, i fwynhau'r haul - pan mae hi'n gwenu ac i gyfarfod ffrindiau a chael pryd o fwyd. Ond nid hynny oedd pwrpas y dociau.

Diolch i Eirian am drefnu daith i fwynhau ac i drosglwyddo i ni'r holl wybodaeth.



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Teithiau Maes Mis Mehefin

4/6/22 Ardal arfordirol Pen-bre

Cylchdaith tua 7 milltir. Dilyn Llwybr yr Arfordir i Barc Gwledig Pen-bre. Yn cynnwys twyni a thraeth Cefn Sidan, llwybrau coediog a llecynnau agored y Parc. Taith wastad ac eithrio ambell ddarn byr. Rhai mannau mwdlyd yn bosib. Hanes morwrol a diwydiannol diddorol; amrywiaeth o blanhigion a bywyd gwyllt. Modd mwynhau paned ar y diwedd.

Man cyfarfod: Maes parcio Llyfrgell Pen-bre (drws nesa i feithrinfa Serendipity).

Cod post agosaf: SA16 0TP SN429010

Arweinydd: Enid Jones

01267 233987; 07495 992138; 07483 249980

11/6/22 O'r môr i'r mynydd Ardal Dinas Cross

Cylchdaith oddeutu 7 milltir o hyd gyda golygfeydd hyfryd o ben Mynydd Dinas. Dringo cyson yn ystod rhan gyntaf y daith. Gellir cwtogi'r daith os dymunwch.

Man cyfarfod: Maes Parcio Pwllgwaelod

Cod post agosaf: SA42 0SB SN005398

Arweinydd: Gareth Jones

01239 654309, 07507 091689

18/6/22 Olion gweithfeydd mwyn Cwmsymlog, Cwmerfyn, Llywernog ac eraill.

Taith o tua saith milltir ar lwybrau. Peth dringo graddol yn yr hanner cyntaf.

Man cyfarfod: Cwrdd ym maes parcio Llyn Pendam

Cod post agosaf: SY23 3EX SN710840.

Arweinydd: Rees Thomas. 01970 828772
07838259313.

25/6/22 Ardal Cilcennin ger Aberaeron

Taith hamddenol drwy gefn gwlad gyda golygfeydd eang o Ddyffryn Aeron. 5-6 milltir, ambell fan gwlyb yn bosib

Man cyfarfod: Iard ysgol Cilcennin.

Cod post agosaf: SA48 8RH SN519600

Arweinydd: Marina James 01545 571045

Gwynedd a Môn

Am fanylion ewch at:

<https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gwynedd-a-mon-hydref-a-gaeaf-2020/>

Gogledd Dwyrain

Am fanylion ewch at:

<https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gweithgareddau-gogledd-ddwyrain-hydref-2020/>

Cofiwch yr Eisteddfod

Ar ôl dwy flynedd heb Eisteddfod mae'r Cymry Cymraeg yn edrych ymlaen at yr Eisteddfod yn Nhregaron. Mae mor braf i weld gymaint o bethau yn mynd ymlaen trwy'r iaith Gymraeg. Llawer i weld, llawer o gyfleoedd i siarad Cymraeg.

Mae gan y dysgwyr le i gyfarfod, i gael paned ac i wneud ffrindiau newydd. Enw'r lle yna yw Babel y Dysgwyr! Syrpreis, syrpreis! Mae gan Gymdeithas Edward Llwyd stondin yna hefyd felly gwnewch yn siŵr o alw. Gwnewch nodyn yn eich dyddiadur - wythnos cyntaf mis Awst!

Efallai byddaf yn gweld chi yna.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Y Mab Darogan

Cwmni Theatr Maldwyn

19eg Tachwedd 2022

Dw i'n gwybod bod mis Tachwedd yn bell i ffwrdd ond mi fydd galw mawr ar y tocynnau. Yn wreiddiol cafodd y ddrama yma ei berfformio am y tro cyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Machynlleth 1981. Cafodd Theatr Maldwyn ei greu er mwyn perfformio'r ddrama yma ac mae'r ddrama wedi cael ei ail-ysgrifennu ond dw i'n siŵr byddai'r perfformiad yr un mor ddramatig. Mae Theatr Maldwyn wedi mynd o nerth i nerth dros y pedwar deg mlynedd diwethaf

Stori Owain Glyndŵr yw hi ac mae'n sicr o fod yn noson i fwynhau. Rhai blynyddoedd yn ôl es i'r Lyric yng Nghaerfyrddin i fwynhau detholiad o waith y Theatr ac nid yn unig y to oedd yn codi ond emosiynau pawb hefyd.

Ar hyn o bryd y Lyric yw'r unig le yn y de allwch chi weld y perfformiad.

Peidiwch â'i cholli!

Cŵn Clyfar

gan Megan

a thipyn bach o help gan Helen Hickson



Helo pawb. Sut ydych chi? Megan dw i. Brochgi dw i - 'ci selsig'. Dw i'n byw gyda fy mrawd Pelham (brochgi arall), ein llysfrawd Harvey (mae'n gath) a'n bodau dynol Mark a Helen. Dyn ni'n byw yng Ngogledd Swydd Efrog mewn pentre' bach. Ein hoff beth ydy mynd am dro ar y gweunydd. (Dydi Harvey, wrth gwrs, ddim yn dod gyda ni!).

Weithiau dyn ni'n gweld aderyn mawr fel chwibanogl y mynydd neu boda. Unwaith, gwelais dylluan ond hedfanodd i ffwrdd pan

ddechreuais gyfarth. Un peth da am fyw gyda chath yw 'gêm erlid'; yn ffodus mae'r gath yn mwynhau chwarae gyda ni! Rhaid i mi fynd rŵan - mae'n amser swper!

Wel, wel, cŵn sydd yn ysgrifennu ac yn Gymraeg hefyd - beth nesaf! Rob

Shirley Valentine

gan Shelagh Fishlock



Nid pawb sy'n ddigon hen i gofio drama'r wythdegau Willy Russell, ond wedi gweld y ffilm oedd yn help mawr i ddysgwyr ddilyn y fersiwn Cymraeg oedd ar daith o gwmpas Cymru ym mis Mawrth.

Stori gyfarwydd yw'r ddrama: menyw yn ei phedwardegau, wedi magu ei phlant, yn diflasu yn y tŷ gyda gŵr heb ddiddordeb ynddi hi erbyn hyn, ac sy'n ysu am fywyd gwell. Yn ystod gwyliau annisgwyl yn Corfu, mae hi'n ail-ddarganfod ei hun, ac yn penderfynu byw'r bywyd sy'n ei siwtio hi, er syndod mawr i'w theulu a ffrindiau.

Yn y fersiwn Cymraeg, mae'r stori wedi ei throsglwyddo o Lerpwl i Ferthyr, ac yn gweithio i'r ddim. Hyd yn oed mewn iaith y cymoedd, mae llais Willy Russell a'r Shirley wreiddiol i'w clywed, a'r comedi chwerwfelys cystal ag oedd e 40 mlynedd yn ôl.

Er dim ond un person sydd ar y llwyfan (yr actores Shelley Rees), mae pob un o'r cymeriadau'n dod yn fyw tra mae Shirley'n siarad â wal y gegin neu garreg ar y traeth. Mae'n hawdd clywed y gŵr yn cwyno am yr wy a sglods ar y bwrdd yn lle stêc, a llais coeglyd y ferch hunanol yn chwerthin am ei phen hi, a'r syniad o'i mam yn mynd ar wyliau dramor. Pan mae hi'n disgrifio cwrdd â'r llanc Groegaidd, a'i antur

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ar y cwch, dyn ni'n rhannu'r wefr, ac yn deall ei breuddwyd.

Siŵr o fod bydd Shirley yn ôl yng Nghymru rhyw bryd, ond gyda hyder ac annibyniaeth newydd i fyw ei bywyd ei hun.

Hanes Y Gymraeg Y Ugeinfed Ganrif - Rhan 1

gan Martin Jones

Rydyn ni wedi gweld mewn erthygl flaenorol bod y nifer o siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu yn 1911 i'w lefel uchaf erioed (977,000) - ond ar y llaw arall bod y canran o siaradwyr Cymraeg wedi disgyn i 43.5%. Nawr, dros y tri deg o flynyddoedd nesaf, cafodd dau ffactor effaith niweidiol ar yr iaith: y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Dirwasgiad Mawr.

O ran y rhyfel, lladdwyd dros 20,000 (efallai cymaint â 30,000) o Gymry Cymraeg ifanc yn y gyflafan ym meysydd Ffrainc a Gwlad Belg, yn eu plith Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) a gollodd ei fywyd llai na mis cyn y dylai fod wedi cael ei gadeirio yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Birkenhead yn 1917. Cafodd rhai cymunedau yng Nghymru eu hamddifadu o genhedlaeth gyfan o ddynion ifanc.

Ac yn y blynyddoedd rhwng y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd, daeth y Dirwasgiad Mawr. Yn y cefn gwlad, roedd y cyfnod hwn yn gyfnod o galedi mawr. Wrth i bobl ifanc symud allan o Gymru wledig, gadawon y tu ôl iddyn nhw boblogaeth oedd yn heneiddio. Ym mhob blwyddyn yn ystod y ddau ddegau a'r tri degau, roedd nifer y marwolaethau yn fwy na'r nifer o enedigaethau yn siroedd Gaernarfon, Ynys Môn, Ceredigion, a Meirionnydd - canoldir yr iaith Gymraeg.

Difrodwyd yr ardaloedd diwydiannol: y chwareli llechi a oedd wedi cynnal cymdeithas o Gymry Gymraeg yng ngogledd-orllewin Cymru a maes glo ager cymoedd de Cymru fel ei gilydd. I lawer, symud allan o Gymru oedd yr unig ffordd i ddod o hyd i waith. Rhwng 1925 ac 1939, allfudodd 390,000 yn bennaf i Ganolbarth a De-ddwyrain Lloegr, ac ni ddaeth y mwyafrif yn ôl. Dechreuodd llawer o'r to ifanc gwestiynu'r pwynt o siarad Cymraeg os byddai'n rhaid iddyn nhw fyw y tu allan i'w mamwlad.

Ac roedd llawer o bobl yn credu taw Sosialaeth oedd yr unig ymateb i'r dirwasgiad ac anghyfiawnderau cymdeithasol. Iddyn nhw, roedd yr iaith Gymraeg nid yn unig yn henffasiwn ond hefyd yn llestair i welliannau cymdeithasol.

Ar yr un adeg, roedd ffactorau eraill yn gweithio yn erbyn yr iaith. Roedd y galw am y newyddion diweddaraf yn golygu bod mwy a mwy o bobl yn prynu papurau dyddiol Llundain yn hytrach na'r papurau Cymraeg wythnosol a misol. Daeth y sinema'n boblogaidd iawn yn ystod yr ugeiniau a'r tri degau ac, wrth gwrs, Saesneg oedd iaith y rhain. A phan ddechreuodd y BBC i ddarlledu o Gaerdydd (1923) ac Abertawe (1924), roedd y gwasanaeth bron yn hollol Saesneg a dim ond ambell raglen yn Gymraeg.

Ond ar y llaw arall, gwelodd y blynyddoedd rhwng y ddau ryfel byd datblygiadau positif hefyd. Yn 1922, sefydlwyd Yr Urdd ac erbyn 1940 roedd ei haelodaeth wedi cyrraedd ei hanterth gyda 57,000 o aelodau. Mae'r mudiad yn dal i ddenu 50,000 o aelodau heddiw. A thair blwyddyn yn ddiweddarach, sefydlwyd Plaid Genedlaethol Cymru, a dan ddylanwad ei ffigwr blaenorol, Saunders Lewis, amddiffyn yr iaith oedd ei blaenoriaeth.

Roedd yr ugeiniau a thri degau hefyd yn gyfnod ffrwythlon ar gyfer llenyddiaeth Gymraeg: ym myd barddoniaeth roedd gweithiau T. Gwynn Jones a T.H. Parry-Williams, ac ym myd rhyddiaith gwaith Kate Roberts.

Yn 1927, cyhoeddwyd yr adroddiad "Y Gymraeg mewn Addysg a Bywyd" a oedd yn feirniadol o'r diffyg cefnogaeth i addysgu'r Gymraeg ac o bolisi'r BBC o ran yr iaith. Er cafodd rhan fwyaf argymelliadau'r adroddiad ym maes addysg eu hanwybyddu, arweiniodd yr adroddiad at ddatblygiad pwysig ym maes darlledu - sef creu Rhanbarth Cymru o fewn y BBC. Ymhen amser, llwyddodd y rhanbarth i greu iaith lafar Gymraeg safonol a oedd yn fwy cyfoes nag iaith y pulpud oedd erbyn hyn yn cael ei ystyried yn dipyn yn ffurfiol a hen-ffasiwn.

Datblygiad pwysig arall roedd penderfyniad Llys yr Eisteddfod Genedlaethol mai'r Gymraeg fyddai iaith swyddogol yr ŵyl, a chafodd y rheol hon ei chyflwyno am y tro cyntaf yn Eisteddfod Caerffili yn 1951.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Yn olaf, cafodd y camau cyntaf i wrthdroi “cymal yr iaith” y Ddeddf Uno 1536 eu cymryd yn 1942 pan basiodd y llywodraeth Deddf Llysoedd Cymru. Cam bach iawn oedd hyn, ond nawr roedd unrhyw un a deimlai dan anfantais o beidio â defnyddio'r Gymraeg mewn llys barn yn cael defnyddio'r iaith. Dilynodd y ddeddf hon ddeiseb i roi statws cyfartal i'r Gymraeg yn sgil gwrthodiad y barnwr i ganiatáu i Saunders Lewis a'i gyd-amddiffynyddion annerch y llys yn Gymraeg yn eu treial yng Nghaernarfon am roi ysgol bomio ar dân.

Ond er gwaethaf y datblygiadau positif hynny, erbyn 1951 roedd cyflwr yr iaith yn ansefydlog iawn. Dangosodd cyfrifiad y flwyddyn honno bod y nifer o siaradwyr wedi disgyn i 715,000 a'r canran i 28.9%, a hefyd bod y nifer o bobl oedd yn uniaith Gymraeg bron â diflannu.

Byddai pethau yn mynd yn waeth ar ôl yr Ail Ryfel Byd, ac yn yr erthygl nesaf cawn ni weld beth oedd yr ymateb i argyfwng yr iaith hon.

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr **RHAGLEN 2022/ PROGRAMME** **2022**

Sgyrsiau yn Gymraeg am hanes a diwylliant Cymreig ar gyfer Dysgwyr a phobl sy'n hollol rhugl.

Talks in Welsh about Welsh history and culture for learners and fluent speakers.

Bydd y sgyrsiau ar Zoom yn ystod 2022

9 MAI (Ymweliad)
Athro Madeleine Gray - Ymweliad ag Eglwys Llanilltud Fawr

13 MEHEFIN (Ymweliad)
Bill Jones - Ymweliad â Phriorddy Ewenni

12 MEDI (Zoom – 7 30yh)
Richard Gammon - William Randolph Hearst a Chastell St Donats

10 HYDREF (Zoom – 7 30yh)
Delyth Jenkins - Hanes y Delyn a Thaith ar Lwybr Arfordir gyda'i Thelyn

14 TACHWEDD (Zoom – 7 30yh)
Sian James - Tair Cymraes Mae Hanes wedi Anghofio

CYMDEITHAS HANES BRO OGWR

Mis Mai 2022 – Ymweliad ag Eglwys Illtud Sant, Llanilltud Fawr gydag Athro Madeleine Gray

Roedd yn hyfryd i gwrdd â nifer da o bobl ar y noson ar gyfer ein hymweliad cyntaf ers y pandemig.

Mae Maddy Gray yn hanesydd y canol oesoedd sy'n canolbwyntio ar dystiolaeth weledol o hanes credoau ac arferion crefyddol. Siaradodd Maddy am hanes yr eglwys Illtud Sant a hanes y casgliad o feini yn yr eglwys.

Un o'r safleoedd Cristnogol hynaf yn y Deyrnas Unedig ydy'r safle hwn. Daeth Illtud Sant yma tua 500OC felly mae pobl wedi bod yn addoli yma ers dros 1500 o flynyddoedd. Ar ôl i'r Rhufeiniaid adael, cadwyd y ffydd Gristnogol gan y seintiau Celtaidd. Roedd Illtud Sant yn un ohonyn nhw a, thrwy ei ddysgeidiaeth, daeth Llanilltud nid yn unig yn ganolfan i Gristnogaeth Gymreig ond hefyd y ganolfan dysgu hynaf ym Mhrydain. Daeth myfyrwyr yma o bob rhan o'r ynysoedd Prydain ac wedyn teithion nhw i bregethu'r Efengyl ac i sefydlu cymunedau Cristnogol. Byddai nifer o adeiladau wedi bod ar y safle ond does dim byd ar ôl heblaw am y meini Celtaidd sydd bellach wedi eu lleoli yng Nghapel Galilea.

Mae'r adeilad presennol mewn gwirionedd yn ddwy eglwys yn un. Mae hanner yn dyddio i'r cyfnod Normanaidd pan godwyd Capel y Gorllewin yn y ddeuddegfed ganrif. Mae'r hanner arall yn dyddio i'r drydedd ganrif ar ddeg pan ailadeiladwyd yr eglwys Normanaidd ac adeiladwyd Capel y Dwyrain i wasanaethu fel mynachlog. Ar yr un adeg adeiladwyd siantri (Capel Galilea nawr) ar gyfer y teulu Raglan. Ar ôl y Diwygiad, daeth Capel y Dwyrain yn eglwys blwyf a dadfeiliodd gweddill yr adeilad. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg dechreuwyd cyfres o waith atgyweirio, yn cynnwys y gwaith i adfer Capel Galilea yn 2013.

Mae'r meini Celtaidd sydd bellach yng Nghapel Galilea yn dyddio i'r nawfed/degfed ganrif. Cafodd y meini eu comisiynu gan uchelwyr pwysig a swyddogion eglwysig a oedd yn gysylltiedig â'r gymuned Gristnogol leol. Un

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

o'r rhai pwysicaf ydy'r Groes Houelt, croes olwyn gydag addurniadau hardd ac arysgrif Lladin. Mae'n debyg bod yr arysgrif yn cyfeirio at Hywel ap Rhys, Brenin Glywysing. Bu farw yn 886OC. Un arall ydy Croes Samson neu Illtud gydag arysgrifau Lladin ar y blaen a'r cefn. Mae'n anodd darllen yr arysgrifau ond credir eu bod yn cael eu cyfeirio at Illtud Sant a brenin o'r enw Samson. Hefyd, mae Colofn Samson yno ac mae'n bosibl mai hyn ydy'r maen hir arysgrifedig gynharaf ym Mhrydain. Mae'r arysgrif Lladin yn awgrymu cafodd y golofn ei godi gan Abad Samson ar gyfer ei frenin, Ithel o Went, a fu farw tua 848OC.

Mae llawer o bethau hynafol a diddorol yn yr eglwys ei hun fel delwau a chofebion. Mae gwaith adnewyddu wedi datgelu mur luniau. Mae un o Mary Magdalen ac un o Sant Christopher yn dyddio i'r drydedd ganrif ar ddeg a'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Un o drysorau'r eglwys ydy'r Jesse Niche, carreg gerfiedig o'r drydedd ganrif ar ddeg sy'n cynrychioli'r llinach Grist.

Diolch yn fawr iawn i Maddy am sgwrs ddiddorol a roddodd gipolwg i ni i gyd ar eglwys mor bwysig.

Digwyddiad nesa ydy:-

Nos Lun, 13 Mehefin am 7 ooyh – Ymweliad â Phriordy Ewenni gyda Bill Jones.

Mae Rhaglen 2022 ar gael ar Facebook.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â nestahumphreys@btinternet.com neu edrych ar ein tudalen Facebook.

<https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr>

Nesta Humphreys

Pwyllgor Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

Ysbrydoliaeth

gan Rob Evans

Dyma darn nes i anfon at bapurau bro Cymru ar gyfer eu rhifynau mis Mehefin.

Roedd amser yn mynd heibio a finnau heb setlo ar bwnc i ysgrifennu i'r papurau bro ar gyfer mis Mehefin, roedd fy mhen yn dioddef o fymryn bach o banig. Mae cael syniadau yn anodd pan

mae rhywun yn y cyflwr yna. Ond ddoe roedd rhywbeth i edrych ymlaen ato - ar ôl dros ddwy flynedd o gyfyngiadau roedd Cymdeithas Hanes Bro Ogwr yn ymweld ag eglwys Llanilltud Fawr. Dyna le oedd 'coleg' seintiau Sant Illtud yn y chweched ganrif. Roedd hyn yn mynd i fod yn ddiddorol.

Roedd llawer i'w weld, hen feini yn y capel, cerrig beddau ar y llawr ym mhob man, murluniau, delwau a chofeb wedi ei gerfio gan Iolo Morgannwg. Wrth gwrs efo gymaint i'w weld mae'n rhaid cael rhywun gwybodus i ddatgelu'r hanes ac roeddwn ni'n ffodus bod yr Athro Madelaine Gray yna i daflu golau ar bopeth. Hyn oll trwy gyfrwng y Gymraeg - pleser pur!

Diolch byth i Gymdeithas Hanes Bro Ogwr!

Ond dysgwyr wnaeth sefydlu'r Gymdeithas ond nid dim ond dysgwyr oedd yna, roedd cymysgedd dda o ddysgwyr a Chymry Cymraeg, tua 30 o bobl yn gyfan gwbl, pawb yn cymysgu, pawb yn adnabod ei gilydd. Dyma oedd enghraifft dda o'r gwahaniaeth mae dysgwyr yn gallu gwneud i'n cymunedau. Faint o ardaloedd dros Gymru fyddai'n elwa o'r fath gymdeithas? Llawer iawn dw i'n siŵr.

Ond mae'n gallu gweithio'r ffordd arall hefyd a does dim rhaid iddi fod yn gymdeithas hanes. Pa bynnag fath o gymdeithas dach chi'n dewis mae'n rhaid i chi gael cylch o bobl o'ch cwrpas cyn i chi ddechrau. Un peth dw i'n gwybod yw bod dysgwyr yn frwdfrydig, maen nhw eisiau defnyddio'r iaith maen nhw wedi bod mor brysur yn dysgu. Cymerwch amser i ddod i adnabod eich dysgwyr lleol, cysylltwch â'ch tiwtor lleol, trefnwch gael coffi efo nhw mewn caffi. Gofynnwch pa fath o gymdeithas a fydd o ddiddordeb iddyn nhw.

Cofiwch, ar ddechrau'r cyfnod clo roedd 9,000 o bobl wedi cofrestru i ddysgu Cymraeg – petaswn ni'n llwyddo i gael nhw i gyd i mewn i'n cymunedau Cymraeg byddai hynny'n gwneud lles mawr i'n hiaith annwyl. A'r bonws yw bydd mwy eto yn cofrestru bob mis Medi!

Mae'n gyfle rhy bwysig i wastraffu!

Rwan - allwch chi wneud y fath beth yn eich ardal? Clwb cerdded, côr - beth bynnag. Byddech chi'n gwneud lles fawr i'r Gymraeg.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Y Llyfr Lloffion

gan Liz Backen



“Chwilio am eira llynedd,” ochneidiodd Non wrth droi'r hen dudalennau'r llyfr lloffion yn ei lolfa. Heb os, roedd hi'n chwilio am rywbeth ynddo, ond doedd hi erioed yn gwybod beth. Roedd 'na wastad deimlad 'da hi bod hi wedi colli rhywbeth pwysig, felly aeth hi'n ôl at y llyfr bob blwyddyn ar ei phen-blwydd i chwilio amdano.

Rhedodd Non ei bysedd dros yr hen docynnau papur melyn, ‘Tri thocyn i Landudno plis Ifan,’ ac wedyn cofiodd hi'n glir ei mam, ei llygaid yn pefrio yn y cyntedd, ‘Tri i'r Sound of Music i ni.’ Roedd e'n wastad y tri ohonyn nhw. Gallai Non glywed o hyd llais dwfn ei thad yn chwerthin, ‘Fel yn Y Tair Arth! Tri o bopeth!’

Wrth gwrs, roedd sawl llun o Non a'i rhieni wedi cael eu gwasgaru trwy'r llyfr. Ar bwys un (oedd wedi cael ei dynnu gan ei mam) roedd ei thad wedi 'sgrifennu, ‘Arth fach ar antur.’ Dyna Non, tua thair oed, yn padlo'n hapus yn y tonau bas, ei thad hi'n dal ei dwylo ac yn gwenu.

Gallai Non gofio tynnu'r llun nesaf: roedd ei thad hi'n gwisgo crys heb dei, ei fraich o gwmpas mam dan ei het wen smart. Roedd y camera yn drwm yn ei dwylo bychain a chafodd hi drafferth i'w gadw fe'n llonydd. ‘Da iawn Non!’ buodd ei mam yn dweud wrth blannu sws ar ben ei chwrls golau.

Yn sydyn, cryfhaodd yr awel oedd yn dod drwy'r ffenest a chwythu rhai papurau oddi ar y bwrdd. Plygodd Non lawr i godi popeth ac, am y tro cyntaf, welodd hi lun newydd. Roedd ei holl deulu ynddo, yn eistedd mewn caffi: Y Tair Arth wrth y bwrdd.

Roedd ei mam yn bwyta hufen iâ ar bwys Non yn ei chadair uchel, a'i thad ar y fainc bren, yn gwenu ar y camera.

Ei holl deulu hi, yn yr un llun.

Ei holl deulu hi?

Yn araf iawn, yng nghefn meddwl Non, roedd rhyw gof yn dechrau chwyldroi fel mwg: coesau hir, llygaid glas a gwallt golau.

Ei gwrls golau tu ôl i'r camera?

Daeth sŵn i'w meddwl o ddrws yn cau'n glep, a chymaint o floeddio. Wedyn, doedd 'na dim byd o gwbl, dim ond gwacter.

Anadlodd Non yn ddwfn a rhodd y llun ar dudalen newydd yn y llyfr.

Cododd Non y ffôn.

‘Helo? Anti Mair? Non sy'n 'ma.’

Roedd hi'n mynd i gwblhau ei hanes.

Llythyr o Tasmania

gan Robin Roberts



Mae hi bron yn ddiwedd yr hydref yn Tasmania. Mae gwledd o goed collddail lliwgar yn edrych yn hardd iawn yr adeg hon o'r flwyddyn wrth i'r tymheredd ac oriau'r dydd gostwng. Mae'r holl goed a welwn yn gyffredin mewn tirluniau poblog wedi'u cyflwyno o rannau eraill o'r byd.

Beth bynnag, mae gan Tasmania yr unig goeden gollddail frodorol Awstralia, sef Ffawydd, a elwir yn gyffredin yn ‘Fagus’ (Nothofagus gunnii).

Mae'r goeden hon wedi bod yn tyfu mewn ardaloedd anghysbell â glawiad uchel ym mynyddoedd canolbarth a gorllewinol Tasmania ers miliynau o flynyddoedd ac mae'n gymharol brin.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Mae hwn yn amser poblogaidd iawn i gariadon byd natur yn Tasmania i weld y Fagus pan fydd ei dail yn newid o wyrdd i goch, melyn ac aur. Mewn rhai parciau cenedlaethol nid yw'n rhy anodd gyrru neu gerdded i'r man lle mae'r goeden unigryw hon yn tyfu.

Diolch yn fawr iawn i Robin am unwaith eto gyfrannu erthygl diddorol o ochr arall y byd. Coed yn colli dail? Dim ond dechrau yw'r gwanwyn fan hyn! Llun hyfryd hefyd. Edrych ymlaen at y cyfraniad nesaf.

Teithio Lein Calon Cymru

gan Sylvia Harries

Cam dau – Rhydaman i Bontarddulais.



I ddweud y gwir, cam dau oedd ein cam gyntaf ar ein hantur o gerdded llwybr Lein Calon Cymru oherwydd roedden ni wedi penderfynu ddechrau ein taith yng nghanol mis Tachwedd. Roedd y dyddiau'n fyrrach nawr a'r gam hon yn ddim ond 9 milltir.

Gyrron ni i Bontarddulais ond y tro yma roedd rhaid i ni ddal y bws i Rydaman oherwydd roedden nhw'n gweithio ar y lein ar y pryd. Cafodd gyrrwr y bws sioc o weld saith o bobl ac un ci yn aros amdano am hanner awr wedi wyth bore dydd Sadwrn!

Cafod Rhydaman ei enw ym 1883 pan wnaeth y cwmni reilffordd newid hen enw'r dref. Sef Cross Inn. Mae gymaint o lefydd o'r enw Cross Inn ar draws Gymru felly roedd rhaid newid yr enw. Tyfodd y dref oherwydd mwyngloddio tun a glo carreg. Cawsom seibiant wrth ochr gofeb â gwybodaeth am dreftadaeth lofaol y dref cyn gadael i anelu am y brynau, stopio am funud wrth gofeb glowyr ac eto yn yr ardd goffa i gofio



milwyr o'r ddau Ryfel Byd. Roedd hi'n benwythnos Sul y Cofio.

Dan ni'n cyrraedd Pantffynnon. Mae'r orsaf yma yn adeilad rhestredig gradd II. Aethon ni dros bont grog sigledig i groesi'r afon Aman am y drydedd tro, trwy dir amaeth cyn cyrraedd ein lle picnic delfrydol a gorfodol. Oddi yma gallwn ni edrych yn ôl ar olygfa hardd o Rydaman yn swatio yn y brynau o'i amgylch.

Cyrraedd Garnswllt, wrth droed y Graig Fawr, i mewn i'r coed a heibio adfeilion fferm Bryncyffon. Ar y pen mae'r llwybr yn cyfarfod llwybr Sant Illtyd. Ar draws y dyffryn gallwch weld safle'r hyn sydd i fod yn fferm wynt gyda'r tyrbinau talaf yng Nghymru yn anffodus (250 medr). Mae un ohonyn nhw wedi cwmpo yn y gwynt yn ystod storm! Pan fyddwch chi'n cerdded allan yng nghefn gwlad rydych chi'n gweld y pris o fynd yn wyrdd'. Does dim byd am ddim!



Dilynwn ni lwybr Sant Illtyd nawr dros y rhostir i'r pwynt trig. Mae haul gwan y gaeaf yn ein cyfarch i helpu i gynhesu'r gwynt oddi ar aber afon Lluchwr yn y pellter. Unwaith i lawr o'r mynydd daethon ni o hyd i lecyn cysgodol yn y rhedyn i gael cinio. Allan o'r gwynt ac yng

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ngghynhesrwydd yr haul roedd hi 'n ddiwrnod nefolaidd. Gan barhau i lawr nawr trwy bentrefi Bryn-du a Thŷ Camffrwd ble mae'r bobl yn cymryd gofal mawr o'u tandem ac mae cwningen beryglus yn bwy.

Ymlaen i Bontarddulais, trwy'r dref a thua'r orsaf. Dyma ni yn aros am wers hanesyddol ar derfysgoedd Rebeca. Mae carreg fawr yn dynodi'r lle ble amser maith yn ôl safai 'r tollty a wnaeth ddechrau'r holl derfysg.



mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

AwDUra


Dyma gynllun newydd i annog lleisiau Cymraeg o blith cymunedau Du, Asiaidd a Lleafrifol Ethnig i 'sgwennu straeon i blant bach.

Ry'n ni'n chwilio am bobl i ymuno efo cynllun 'AwDUra' fydd yn darparu cefnogaeth gan ddau enw mawr o fyd 'sgwennu a chyhoeddi Cymru – Jessica Dunrod a Manon Steffan Ros. Ein nod yw annog creu straeon i blant bach cymuned Mudiad Meithrin a thu hwnt. Y gobaith fydd cyhoeddi straeon gan leisiau newydd.

Bydd y cynllun yn cymryd 10 diwrnod (yn ystod cyfnod o 4-6 mis eleni). Bydd yr union ddyddiau'n cael eu cytuno efo'r ymgeiswyr llwyddiannus. Darperir cyflog am y 10 diwrnod.

Mae modd i bobl sy'n dysgu Cymraeg wneud cais. Mae'r manylion i gyd yma:
meithrin.cymru/jobs/awdura

I wneud cais, gyrra e-bost 100 gair neu fideo munud o hyd gyda pam y dylet gael dy ddewis i gwenllian@meithrin.cymru erbyn Mehefin 10 2022.



Jessica Dunrod



Manon Steffan Ros



This is a new project to encourage voices from Black, Asian and Minority Ethnic communities to write stories in Welsh for young children.

We are looking for people to join 'AwDUra' – a project that will provide support from two big names from the world of writing and publishing in Wales – Jessica Dunrod and Manon Steffan Ros. Our aim is to encourage the creation of stories for young children in Mudiad Meithrin's community and beyond. The hope is that we will publish the stories of these new voices.

The scheme will involve 10 days' work (during a period of 4-6 months this year). The exact days will be agreed with the successful candidates. A salary is provided for the 10 days.

People learning Welsh can apply. All details are here:
meithrin.cymru/jobs/awdura/?lang=en

To apply, send a 100-word e-mail or 1-minute film to gwenllian@meithrin.cymru by June 10, 2022, explaining why you should be chosen!

Rhif Elusen: 1022320

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Pawb yma yn siarad Cymraeg!

Dw i wedi copio y darn yma o dudalennau 'Wilia' ein papur bro yma yn Abertawe. Dw i'n siŵr na fydden nhw'n poeni.



Bwyty Truffle

Yn haeddu ein cefnogaeth!

Mae pob un o 11 aelod o staff Truffle, ar King Edward's Road, yn siarad Cymraeg ac yn gyn-ddisgyblion Ysgol Bryn-y-Môr. Oes angen rhagor o esgus dros fynd mas i gael pryd o fwyd?

Y manylion pwysig

Cyfeiriad:

1A King Edward's Rd, Brynmill, Swansea
SA1 4LH

Amser agor:

Dydd Iau 6 y.h. - 11.30 y.h.
Dydd Gwener 5 y.h. - 11.30 y.h.
Dydd Sadwrn 12 c.d. - 11.30 y.h.

Cysylltwch:

01792 547 246
info@truffleswansea.com

Geirfa

Cenarth

Dros y lle i gyd - all over the place
Celwydd - a lie
Rhag eich cywilydd - shame on you
Yr amheus arferol - the usual suspects
Llysiau'r wennol - celandine
Cyfrifol - responsible
Mi ddaw! - it'll come!
Llwybr ystyllod - boarded walk
Gwasg argraffu - printing press
Cyfreithiol - legal
Danddaearol - underground
Twannel cyfrinachol - secret tunnel

Yn ôl y sôn - by all accounts
Gwyddelod - the Irish
Taeogion - peasants
Mynegi eu barn - to express their opinion
Difrod - damage

Llwybr Arfordir?

Talacharn - Laugharne
Coetir - woodland
Ein gorau glas - our very best
Rhodfa bren - wooden walkway
Dianc - to escape
Hud-ddŵr - mirage
Crëyr ffug - fake heron
Gŵydd - goose
Troednodyn - footnote

Braidd yn Ffiaidd

Ystumllwynarth - Oystermouth
Aros fy nhro - to wait my turn

Ofergoelion

Ofergoelus - superstitious
Rhesymau gwreiddiol - original reasons
Cyndeidiau - forefathers
Teyrnged - tribute
Anafu - to injure
Eifftiaid hynafol - ancient Egyptians
Amharchus - disrespectful
Dŵr rhedegog - running water
Adfeilion - ruins
Gosod - to lay (something) down
Adnewyddu - to renew
Adlewyrchiad - reflection

Llythyr o'r Almaen

Bochdew - hamster
Meindwr eglwys - church spire
Ffuglen wyddonol - science fiction
Chwilyfrydig - inquisitive

Dysgu gyda'n gilydd

Cwningen - rabbit
Camlas - canal
Glas y dorlan - kingfisher

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Howard Jones Clements

Anifail anwes - pet
Dyfalwch - (you) guess

Cŵn clyfar

Brochgi - sausage dog
Llysfrawd - stepbrother
Bodau dynol - human beings
Gweunydd - moors
Chwibanogl y mynydd (boda) - buzzard
Tylluan - owl
Gêm erlid - a chase

Shirley Valentine

Cyfarwydd - familiar
Diflasu - to be bored
Ysu - to yearn (for)
Trosglwyddo - to transfer
I'r dim - perfectly
Chwerwfelys - bittersweet
Wy a sglods - egg and chips
Coeglyd - sarcastic

Hanes y Gymraeg

Cyflafan - slaughter
Dirwasgaid Mawr - Great Depression
Amddifadu - to deprive
Canoldir - heartland
Difrodi - to devastate
Allfudo - to emigrate
To ifanc - younger generation
Anghyfiawnderau - injustices
Beirniadol - critical
Argymelliadau - recommendations
Gwrthdroi - to reverse
Cymal yr iaith - language clause
Deiseb - petition
Ansefydlog - shaky

Cymdeithas Hanes

Ymweliad - visit
Canobwyntio - to focus on
Tystiolaeth weledol - visual evidence
Credoau - beliefs
Arferion crefyddol - religious practices
Meini - stones
Dysgeidigiaeth teachings
Efengyl - gospel
Sefydlu - to establish
Nifer - a number (of)
Mynachlog - monastery
Siantry - chantry
Diwygiad - the reformation
Dadfeilio - to deteriorate
Atgywerio - to repair
Addurn - decoration
Arysgrif - inscription
Hynafol - ancient
Delw - image
Cofeb - memorial
Mur luniau - murals
Cerfiedig - carved
Cynrychioli - to represent
Gipolwg - a glance

Ysbrydoliaeth

Cyfyngiadau - restrictions
Gwybodus - learned
Datgelu - to reveal

Y Llyfr Lloffion

Ochneidio - to sigh
Llyfr lloffion - scrap book
Gwasgaru - to spread
Cryfhau - to strengthen
Rhyw gof - a distant memory
Cau'n glep - to slam shut
Bloeddio - to shout
Cwblhau - to complete

Teithio Lein Calon Cymru

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Cam dau - the second step

Lein calon Cymru - Heart of Wales Line

Seibiant - a short break

Mwyngloddio - to mine

Cofeb - memorial

Sul y Cofio - Remembrance Sunday

Pont crog - suspension bridge

Sigledig - shaky

Delfrydol - ideal

Gorfodol - necessary

Swatio - to nestle

Adfeilion - ruins

Rhedyn - bracken

Cynhesrwydd - warmth

Nefolaidd - heavenly

Terfysgoedd Rebeca - Rebecca Riots

Llythyr o Tasmania

Coed collddail - deciduous trees

Gostwng - to lower

Tirluniau - landscapes

Poblog - populated

Brodorol - native

Anghysbell - remote

Glawiad uchel - high rainfall